Defnyddio calchfaen

Mae'n bosibl defnyddio calchfaen a chynnyrch calch ar gyfer amrywiaeth o bethau gwahanol. Mae wedi chwarae rhan bwysig yn sut mae Cymru wedi datblygu dros y canrifoedd.

Roedd calch yn cael ei ddefnyddio i wella'r pridd neu fel 'gwrtaith'. Mae ei pH alcalïaidd yn niwtraleiddio priddoedd asidig, ac roedd hyn yn ei gwneud hi'n bosibl i'r ffermwyr drin priddoedd yr uwchdiroedd a chynyddu amrywiaeth y cnydau a swm y cnwd.

Roedd calch hefyd yn cael ei ddefnyddio i wneud sebon.



Yn y gorffennol, oherwydd ei nodweddion cawstig, roedd calch brwd yn cael ei ddefnyddio i gael gwared ar gyrff marw trwy eu hydoddi!

Roedd golau calch yn ffurf gynnar ar olau mewn theatrau. Pan fydd Calsiwm Ocsid yn cael ei wresogi i dymheredd uchel, mae'n cynhyrchu golau llachar iawn.

Trwy wresogi calch gyda thywod silica (SiO_2) a sodiwm carbonad (Na_2CO_3), mae gwydr yn cael ei ffurfio.

Gall calch tawdd gael ei ddefnyddio i wneud cynnyrch adeiladu, er enghraifft plastr a morter, pwti a phaent gwyngalchu.

Cronfa Datblygu Cynaliadwy Sustainable Development Fund
Canolfan y Mynydd Du Black Mountain Centre
ymddiriedolaeth archaeolegol DYFED archaeological trust
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau National Waterfront Museum